

REES, JOSIAH (1744-1804), gweinidog Undodaidd

Enw: Josiah Rees
Dyddiad geni: 1744
Dyddiad marw: 1804
Plentyn: Josiah Rees
Plentyn: Richard Rees
Plentyn: Thomas Rees
Plentyn: Owen Rees
Rhiant: Mary Rees
Rhiant: Owen Rees
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Undodaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 2 Hydref 1744 ym mhlwyf Llanfair-ar-y-bryn - yr oedd ei dad, [Owen Rees \(1717 - 1768\)](#), yn weinidog ar y pryd yng Nghlun-pentan. Aeth i ysgol ramadeg Abertawe ac wedyn i academi Caerfyrddin 1761-6, dan [Jenkin Jenkins](#); yno y daeth yn gyfaill mawr i [David Davis](#), Castell Hywel. Ond eisoes yn 1763 urddwyd ef yn weinidog eglwys y Gelli-onnen ym mhlwyf Llangyfelach (Pontardawe heddiw); preswyliai yn y Gelli-gron, a chadwai ysgol hyd tua 1785. Ymddiddorai yn hanes a llenyddiaeth Cymru, ac ym mis Mawrth 1770 dechreuodd gyhoeddi cylchgrawn pythefnosol, *Trysorfa Gwybodaeth* (sy'n fwy adnabyddus dan yr enw *Yr Eurgrawn*, enw a awgrymwyd gan [Richard Morris o Fôn](#) - gweler *Additional Morris Letters*, 767). Pymtheg rhifyn a ddaeth allan - ond hwn oedd y cylchgrawn Cymraeg cyntaf i gael ei draed dano. Nid yw eto'n hollol sicr pa ran a fu i [Peter Williams](#) ynddo (gweler [Gomer M. Roberts](#), *Bywyd a Gwaith Peter Williams*, 176-84), ond tueddir gan mwyaf i roi'r clod i Josiah Rees. Yn ei farn ddiwinyddol, nid oes amheuaeth nad Ariad oedd Rees er yn fore; ac erbyn diwedd y ganrif yr oedd yn Undodiad pendant; ei enw ef sy'n gyntaf ar restr pwyllgor ' Cymdeithas Ddwyfundodaidd Deheubarth Cymru,' 8 Hydref 1802, ac ef a bregethodd yng nghyfarfod cyhoeddus cyntaf y gymdeithas, 26 Mehefin 1803, yng Nghewn-coed-cymer. Dan ei nawdd hi y cyhoeddodd yn 1804 draethawd (ymddengys nad oes gopi ohono ar gael heddiw) a atebwyd yn yr un flwyddyn gan '[Gomer](#)' ([Joseph Harris](#)) yn ei draethawd Bwyall Crist yng Nghoed Anghrist. Gwnaeth Rees gasgliad o emynau, 1796, a chasgliad o salmau mydryddol, 1797, a ddefnyddiwyd gan y cynulleidfaoedd Undodaidd am gryn amser. Gwrthododd yn 1785 gymryd gofal academi Caerfyrddin pan symudwyd honno i Abertawe, ond traddododd gyfres o ddarlithiau ynddi. Bu farw 20 Medi 1804.

Bu Josiah Rees yn briod ddwywaith; hawlia rhai o'i feibion sylw: yr hynaf,

OWEN REES (1770 - 1837)

Daeth yn 1794 yn bartner yng nghwmni cyhoeddi enwog Longman. Dychwelodd i Gymru yn 1837, a bu farw'n ddi-briod, yn y Gelli-gron, 5 Medi 1837. Yr oedd yntau'n Undodiad yn 1803. (*D.N.B.*, ar ddiwedd yr ysgrif ar y Thomas Rees isod.)

THOMAS REES (1777 - 1864), gweinidog a hanesydd Undodaidd

Ganwyd yn y Gelli-gron 14 Medi 1777. Prentisiwyd ef yn llyfrwerthwr, ond troes at y weinidogaeth, a bu yn academi Caerfyrddin o 1799 hyd 1802. O hynny hyd 1831, bu'n weinidog ar eglwysi, yn Lloegr a chan mwyaf yn Llundain, ar wahân i dymor byr (1805-6) yn hen eglwys ei dad yn y Gelli-onnen. Daeth yn ffigur blaenllaw yn ei enwad: yn un o ymddiriedolwyr cronfa'r [Dr. Daniel Williams](#) (1809-1853), yn aelod o'r Bwrdd Presbyteraidd (o 1813 ymlaen) - ac yn ysgrifennydd iddo (1825-53). Ysyaeth, yn 1853 gwnaeth gawl o gyfrifon y cronfeydd yr oedd eu gofal arno, a bu'n rhaid iddo gilio i Sbaen i osgoi carchar. Ac er iddo wastatáu'r cyfrifon, a chyfannu'r colledion, yn nes ymlaen, eto bwriodd y gweddi o'i oes mewn dinodedd. Diddorol yw sylwi bod Undodiaid Cymru, ar ôl 1853, yn cwyno nad oeddynt yn cael chwarae teg ar law'r Bwrdd wedi i Rees fynd allan o'i swydd. Yr oedd Thomas Rees, meddai Alexander Gordon (a wyddai), 'yn awdurdod dihafal' ar hanes Sosiniaeth ac Undodiaeth. Ei lyfr enwocaf yw *The Racovian Catechism*, 1818, ond cyhoeddodd hefyd (yn y *Monthly Repository*) nifer o bapurau pwysig yn y maes hwn; ac erys cyfrolau mewn llawysgrif yn llyfrgell y Dr. Williams. Cyhoeddodd hefyd, 1815, *The Beauties of Wales*. Gweler ysgrif Gordon arno yn y *D.N.B.*, a ffeithiau ychwanegol gan [Walter J. Evans yn Oriol Coleg Caerfyrddin](#), 22.

RICHARD REES

O Alltycham, Pontardawe, aelod blaenllaw yn y Gelli-onnen (J. E. Morgan, *Hanes Pontardawe*, 103).

JOSIAH REES, masnachwr

Yr oedd yn Leghorn yn 1803 (pan oedd yn aelod o'r Gymdeithas Ddwyfundodaidd, ond a oedd yn gonswl Prydeinig yn Smyrna erbyn mis Tachwedd 1813 pan aned ei fab G. O. Rees.

GEORGE OWEN REES (1813 - 1889), meddyg

Daeth yn feddyg mawr ei fri. Ar ôl astudio yn Guy's Hospital, ym Mharis, ac yn Glasgow, bu'n feddyg yn Llundain o 1836 ymlaen. Parlyswyd ef yn 1886, a bu farw yn Watford, 27 Mai 1889. Y mae yn y *D.N.B.* ysgrif lawn ar ei yrfa ac ar ei gyfraniadau pwysig i feddyginiaeth; gweler hefyd *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1932-3, lle y ceir rhestr o'i bapurau. Etholwyd ef yn F.R.S. yn 1843.

Syr JOSIAH REES, prif farnwr Bermuda

Mab arall i Josiah Rees y masnachwr. Derbyniwyd ef i'r Middle Temple yn 1847 ac a alwyd i'r Bar yn 1851. Penodwyd ef yn brif farnwr yn 1878, urddwyd yn farchog yn 1891, a bu farw fis Tachwedd 1899; rhoes yr enw 'Gelligron' ar ei dy. (*Who was Who; Middle Temple Admissions*; ar gam y dywed [Asaph](#) ei fod yn fab i Thomas Rees).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Yr Ymfynnydd, 1900

a'r cyfeiriadau eraill uchod

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [46636718](#)

Wikidata: [Q6290605](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

